www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

www.giantsnorthwales.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Twristiaeth yn herio'r dyfodol

01745 589020
www.tpnw.org

Twristiaeth yn herio'r dyfodol

Datgelwyd cynlluniau uchelgeisiol i droi Gogledd Cymru yn brif ardal antur y byd.

Dyna weledigaeth Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, y corff sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol economi ymwelwyr y rhanbarth.

Mae nifer yr ymwelwyr sy'n dod yma ar wyliau a gwyliau byr antur wedi parhau i dyfu er gwaethaf effeithiau rhagolygon economaidd anodd a dirwasgiad byd-eang.

Amlinellwyd cynlluniau i adeiladu ar y llwyddiant yna mewn fforwm flynyddol a drefnwyd gan y Bartneriaeth Twristiaeth ar gyfer rhanddeiliaid gwyliau antur o bob cwr o Ogledd Cymru.

Mae'r sefydliad yn gwario £15,000 ar yr ymgyrch Antur Gogledd Cymru ac yn rhagweld y bydd yn gwneud elw o £400,000 ar y buddsoddiad hwnnw yn ystod 2010.

Un o'r prif siaradwyr yn y digwyddiad yn Llanrwst oedd Swyddog Gweithredol Marchnata a Digwyddiadau'r Bartneriaeth Twristiaeth, Carole Startin.

Dywedodd fod Cymbria yn marchnata ei hun fel prif ardal antur Prydain a bod yr Alban yn marchnata ei hun fel prif ardal antur Ewrop.

Dywedodd nifer o'r cynrychiolwyr y dylai Gogledd Cymru fod yn fwy uchelgeisiol a gweithio tuag at gael ei chydnabod fel prif ardal antur y byd.

Ychwanegodd Ms Startin: "Mae angen i bob sector o'r farchnad antur weithio'n agos gyda'i gilydd yn awr i ddenu mwy o gyllid ac yn ddelfrydol dylai pob un sy'n ymwneud â'r sector awyr agored rannu'r un weledigaeth.

"Mae Eryri yn frand sy'n cael ei gydnabod drwy'r byd ac rydym wedi cystadlu'n eithriadol o dda ac wedi gweld twf cyson ar draws Gogledd Cymru i gyd.

"Mae gennym boblogaethau mawr ar stepen ein drws yng Nglannau Mersi, Manceinion a Chanolbarth Lloegr a dylem geisio gwneud mwy i ddenu mwy fyth o ymwelwyr i Ogledd Cymru, trwy frandio cryfach.

"Rydym yn codi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o weithgareddau a dewisiadau hamdden yn ogystal â'r llety sydd ar gael yng Ngogledd Cymru ac yn tynnu sylw at amrywiaeth y rhanbarth ar yr un pryd.

"Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio rydym wedi

Yn y darlun, o'r chwith, mae'r siaradwyr yn cynnwys Chris White, Cyfarwyddwr, Eryri-Bywiol; Jim Embrey, Rheolwr Gweithgareddau, Croeso Cymru; Bledd Lloyd, Canolfan Dŵr Gwyn Genedlaethol, Y Bala; John Ablitt, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; Carole Startin, Swyddog Gweithredol Marchnata a Digwyddiadau, PTGC; David Crombie, Boulder Adventures, Llanberis; Peter Morgan, Motor Safari, Wrecsam; Julie Turner, Croeso Cynnes Cymreig, Coleg Llandrillo; a Sean Taylor, Tree Top Adventure, Betws-y-coed.

dosbarthu mwy ar y daflen gweithgareddau'n unig sy'n rhan fawr o waith marchnata Antur Gogledd Cymru.

Argraffwyd cyfanswm o 40,000 o daflenni gweithgareddau a'u dosbarthu drwy law dros 40 o ddarparwyr llety a Chanolfannau Croeso ledled Gogledd Cymru.

"Yn ogystal â hynny cafwyd 33,000 o ymwelwyr unigol â'n gwefan ac rydym wedi anfon tair taflen newyddion i 5,000 o gyfeiriadau e-bost."

Dywedodd Rheolwr Gweithgareddau Croeso Cymru, Jim Embrey, wrth y cynrychiolwyr bod rhagoriaeth y cynnyrch twristiaeth sydd ar gael i ymwelwyr yn gwella enw da Cymru, ac mae hynny'n cynnwys gweithgareddau hamdden awyr agored.

Meddai: "Rydym yn ceisio gweithio mewn ffordd newydd ac rydym wedi penodi naw hyrwyddwr i helpu i hybu antur, teithiau busnes, diwylliant, pysgota, bwyd, golff, twristiaeth gynaliadwy, beicio mynydd a cherdded.

"Dod o hyd i'r ffordd orau o gyfleu ein neges i'n cwsmeriaid a'n hymwelwyr yw'r nod. Mae hon yn daith y mae'n rhaid i bob un sy'n gysylltiedig â'r sector gwyliau antur ei throedio gyda'i gilydd er mwyn i ni lwyddo i gyfleu ein neges."

Ychwanegodd Cyfarwyddwr Eryri-Bywiol, Chris Wright: "Mae gennym fantais gystadleuol gan ein bod yn mwynhau adnoddau naturiol gyda'r gorau yn y byd.

"Mae'n gynnyrch aeddfed ac mae'r ymrwymiad a'r gallu sefydliadol yn eu lle gennym.

"Mae partneriaid a rhanddeiliaid yn sylweddoli pwysigrwydd y sector i economi Gogledd Cymru.

"Mae nifer y bobl sy'n mynd ar wyliau gweithgareddau ac antur yn y rhanbarth yn parhau i gynyddu ac mae'n hanfodol fod partneriaid yn y diwydiant yn gweithio gyda'i gilydd i gynnal, cefnogi a gwella'r hyn sydd ar gael i ymwelwyr.

"Rhaid i ni sicrhau bod datblygiad y sector awyr agored nid yn unig yn amddiffyn yr amgylchedd ond yn ei wella, ac yn cryfhau natur unigryw'r ardal.

"Mae angen cydweithio agosach rhwng yr holl gyrff sydd â budd yn y sector awyr agored yng Ngogledd Cymru. Rhaid i ni feithrin gallu a chefnogi'r seilwaith i gysylltu â chymunedau, ein partneriaid a rhanddeiliaid er mwyn gwireddu gweledigaeth y sector awyr agored.

Dywedodd David Crombie, sy'n rhedeg Boulder Adventures yn Llanberis: "Mae'r niferoedd ar i fyny, heb os nac oni bai, ac mae angen i ni fod mewn sefyllfa i fanteisio ar y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr.

"Rydym am i ymwelwyr gael profiad cadarnhaol o Ogledd Cymru felly os na allwn ni, fel busnes, eu helpu gyda gweithgaredd arbennig rydym yn awyddus i allu cefnogi diwydiant twristiaeth Gogledd Cymru drwy ddod o hyd i ganolfan weithgareddau arall sy'n gallu."

Ewch i: www.adventure-northwales.com neu ffoniwch 0845 3654265 am fwy o wybodaeth

www.tpnw.org